# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **24 Mai 2017.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Christine Richards | Adran Etholiadol: | Llwchwr Isaf |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau i Blant a Phobl Ifanc [tan 4 Mai 2017] |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Diolch i breswylwyr Llwchwr Isaf am eu cefnogaeth barhaol. Roeddwn yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion lleol ac achosion personol i bobl yn Llwchwr Isaf unwaith eto yn ystod y flwyddyn.

Gwnes i sicrhau bod preswylwyr lleol yn gallu cysylltu â fi'n hawdd. Gweithiais gyda chynghorwyr tref lleol i gynnal cymorthfeydd stryd rheolaidd a chymorthfeydd galw heibio ym mhafiliwn Parc Williams a cherddais o gwmpas y ward pryd bynnag roeddwn yn gallu. Hysbysebais gymorthfeydd ar wefan y cyngor, ar bosteri, yn fy nghylchlythyrau ac ar gyfryngau cymdeithasol.

Defnyddiais fy nghyllideb gymunedol cynghorwyr (a alwyd yn Lwfans Amgylcheddol gynt) i barhau â'r cynllun blodau gwyllt ac i ariannu gwelliannau i Barc Williams, gan gynnwys siglen fasged newydd. Rhoddais beth o'r arian o fy nghyllideb gymunedol i ariannu cludwelyau newydd ar gyfer Bad Achub Casllwchwr.

Trefnais a chefnogais fentrau a gweithgareddau lleol, gan gynnwys codi sbwriel. Parheais i fonitro ceisiadau cynllunio ar gyfer Llwchwr Isaf a cheisio fy ngorau glas i sicrhau bod preswylwyr lleol yn dweud eu dweud. Cyflwynais gyfres o gylchlythyrau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i breswylwyr am fy ngweithgareddau, pryderon a mentrau lleol.
Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Casllwchwr, Ysgol Gyfun Penyrheol a Choleg Gŵyr Abertawe.

## Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Dangosir isod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgorau:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cabinet | 11 | / | 15 | 73 | % |
| Pwyllgor Arfarnu a Chydnabyddiaeth Ariannol y Prif Weithredwr | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 0 | / | 2 | 0 | % |
| Gweithgor y Cyfansoddiad | 2 | / | 2 | 100 | % |
| Fforwm Magu Plant Corfforaethol | 3 | / | 6 | 50 | % |
| Y Cyngor | 14 | / | 16 | 88 | % |
| Panel Ariannu Allanol | 4 | / | 8 | 50 | % |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 1 | / | 2 | 50 | % |
| Panel Ymddiriedolwyr | 2 | / | 3 | 67 | % |
| **Cyffredinol** | **37** | **/** | **55** | **67** | **%** |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Yn fy rôl fel Dirprwy Arweinydd cefnogais Arweinydd y Cyngor a chyflawnais ddyletswyddau fel dirprwy iddo.
Mae fy mhortffolio Cabinet yn cynnwys: Gwasanaethau cymdeithasol i blant a theuluoedd; Chwarae; Gwasanaethau Ieuenctid a Hyrwyddo Cynhwysiad Ieuenctid; Ymyrryd ac Atal Cynnar; Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid; Hawliau Plant [gan gynnwys Hyrwyddwr Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac Ysgolion sy'n Parchu Hawliau]; Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol; Bwrdd Plant a Phobl Ifanc

Roeddwn yn cadeirio (ac rwy'n dal i gadeirio) Bwrdd Cyfarwyddwyr Cwmni Rheoli Stadiwm Abertawe [Stadiwm Liberty]. Roeddwn hefyd yn aelod o gyrff a byrddau partneriaeth allanol amrywiol megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyd-gyngor Cymru, Bwrdd Gwasanaethau Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a'r Bwrdd Cydnerthu ar y cyd.

Myfi oedd yr aelod arweiniol dros ddiogelu [cadw pobl yn ddiogel] oedolion a phlant gan fod yn rhan o'r Grŵp Llywio Diogelu Corfforaethol, a myfi oedd y Cynghorydd Hyrwyddwr dros Blant a Phobl Ifanc.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Cydlynu o gwmpas plant a phobl ifanc - yn cynnwys sefydlu Bwrdd Partneriaeth PPI a chynllun Partneriaeth Strategol PPI. Y nod yw i sefydliadau partner gydweithio er mwyn sicrhau bod PPI yn Abertawe'n ddiogel, yn hapus ac yn iach, ac yn datblygu i gyflawni eu potensial llawn.

Ymgyrch i sicrhau bod cyd-gynghorwyr yn cwblhau hyfforddiant diogelu. Mae'r hyfforddiant hwn bellach yn orfodol ac yn rhan o'r Rhaglen Sefydlu Cynghorwyr.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

\-

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Aelod sefydlu o Gyfeillion Parc Williams ers 2009. Parhau i gefnogi digwyddiadau, gweithgareddau a gwelliannau i'n parc.

Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Tref Casllwchwr, gan weithio i sicrhau bod hen Neuadd y Dref, Casllwchwr yn cael ei defnyddio gan y cyhoedd unwaith eto.

Rwy'n gynghorydd yn Nhref Casllwchwr. www.llwchwrtowncouncil.gov.uk

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £37,000

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 12.10.2017 |